

Datganiad Polisi

Yr aelodau staff canlynol yw'r Cydlynwyr Diogelu / Amddiffyn Plant sydd wedi'u henwi ar gyfer yr ysgol hon: y Pennaeth – Mr Clive Williams ac yn ei absenoldeb y Dirprwy Bennaeth – Mr Gareth James

Y Llywodraethwr Diogelu / Amddiffyn Plant wedi'i enwi ar gyfer yr ysgol hon yw: Mr John Roberts

Cafodd y polisi hwn ei adolygu ddiwethaf gan y Corff Llywodraethu ar Dachwedd 4ydd, 2014.

1.1 Mae Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn cydnabod yn llawn y cyfraniad a wna at amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen i'n polisi:-

- a. atal drwy'r dysgu a'r cymorth bugeiliol a gynnigir i ddisgyblion;
- b. gweithdrefnau i adnabod ac adrodd achosion, neu achosion a amheuir, o gamdriniaeth.

Oherwydd ein cysylltiad beunyddiol â phlant, mae staff ysgol mewn lle da i sylwi ar arwyddion allanol camdriniaeth; ac i gynnig:

- c. cymorth i ddisgyblion a all fod wedi cael eu cam-drin.

1.2 Mae'n polisi ni'n berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol a llywodraethwyr. Gall cynorthwyywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofawyr ac ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt datgelu cyntaf i blentyn.

Atal

2.1 Cydnabyddwn fod hunan-barch uchel, hyder, cyfeillion cefnogol a sianeli cyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo/i yn helpu i ddiogelu disgyblion.

Fe wna'r ysgol, felly, y canlynol:-

- a. sefydlu a chynnal naws lle bydd plant yn teimlo'n saff a lle cânt eu hannog i siarad, a lle gwrandewir arnynt;
- b. sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os ydynt yn gofidio neu mewn anhawster;
- c. cynnwys yn y cwricwlwm, weithgareddau a chyfleoedd ABCh sy'n cyfarparu plant â'r medrau sydd arnynt eu hangen i aros yn ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy i droi am gymorth; ac

ch. cynnwys yn y cwricwlwm ddeunydd a fydd o gymorth i blant ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o safbwynt gofal plant a sgiliau magu plant.

Gweithdrefnau

3.1 Byddwn yn dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sydd wedi cael sêl bendith y Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant.

3.2 Fe wna'r ysgol y canlynol:-

a. sicrhau bod ganddi **aelod uwch o staff wedi'i ddynodi** â chyfrifoldeb arweinol dros Amddiffyn Plant sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol;

b. cydnabod swyddogaeth y cydlynnydd Amddiffyn Plant dynodedig a threfnu cymorth a hyfforddiant.

Mae'r Cydlynnydd Amddiffyn Plant dynodedig wedi derbyn Hyfforddiant Lefel 2 fel a gydnabyddir gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

c. sicrhau bod pob aelod staff a phob llywodraethwr yn gwybod:-

- enw'r person dynodedig a'i swyddogaeth;
- bod ganddo/i gyfrifoldeb unigol i atgyfeirio pryderon ynglŷn ag amddiffyn plant gan ddefnyddio'r sianeli iawn ac o fewn yr amserlenni sydd wedi'u cytuno â'r Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant; a

Gwybod sut i fynd â'r pryderon hynny ymlaen lle nad yw'r person dynodedig ar gael.

ch. sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a ddatgelo gamdriniaeth;

d. sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth o'r cyfrifoldeb a osodir ar yr ysgol a'r staff dros amddiffyn plant drwy **gyflwyno'i dyletswyddau yn llawlyfr yr ysgol**;

- ***Mae'r Llawlyfr Ysgol yn crybwyll, pan wna plentyn honiad yn erbyn aelod o'r teulu neu rywun ar yr aelwyd, NA chaiff caniatâd rhieni ei geisio gan yr ysgol i wneud atgyfeiriad at Wasanaethau Cymdeithasol Ceredigion. Bydd angen i Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu siarad â'r plentyn cyn gynted ag y bo modd os credir bod trosedd wedi'i chyflawni.***

dd. darparu hyfforddiant ar gyfer yr holl staff fel y byddant yn gwybod:-

- eu cyfrifoldeb personol;
 - y gweithdrefnau lleol sydd wedi'u cytuno;
 - yr angen i fod yn wylidwrus wrth adnabod achosion o gamdriniaeth; a
 - sut i gynorthwyo plentyn sy'n datgelu camdriniaeth.
- e. hysbysu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol os:-

- gwaherddir naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol ddisgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant;
ac

- os bydd disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb eglurhad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod yn dilyn penwythnos);

f. gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a chydweithio yn ôl yr angen â'u hymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant gan gynnwys presenoldeb mewn cynadleddau adolygiad cychwynnol ac amddiffyn plant a grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau;

ff. cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon ynglŷn â phlant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed lle nad oes angen atgyfeirio'r mater at y gwasanaethau cymdeithasol ar unwaith;

g. sicrhau bod pob cofnod yn cael ei gadw'n ddiogel a than glo;

ng. cadw at y gweithdrefnau a nodir yng nghylchlythyr arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru 45/2004 *Gweithdrefnau Disgyblu Staff*

Gweithdrefnau recriwtio a phenodi mewn Ysgolion

4.1. sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi'r Cyngor Sir ar gyfer ***Polisi a Gweithdrefnau Datgeliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (2014)***.

4.2. dynodi llywodraethwr ar gyfer amddiffyn plant a fydd yn goruchwyllo polisi ac arferion amddiffyn plant yr ysgol.

Cynorthwyo'r Disgybl mewn Perygl

5.1 Cydnabyddwn y gall plant sydd mewn perygl, sy'n dioddef camdriniaeth neu sy'n dyst i drais gael eu heffeithio'n ddwys gan hyn.

5.2 Gall fod mai'r ysgol hon yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel a chyson ym mywydau plant sydd mewn perygl. Serch hynny, mae'n bosib y bydd eu hymddygiad yn yr ysgol yn heriol ac yn drahaus neu gallant fod yn anfodlon i gyfathrebu.

5.3 Ymgeisia'r ysgol i gynorthwyo'r disgybl drwy'r canlynol:-

a. cynnwys y cwricwlwm i hybu hunan-barch a hunanysgogiad

b. naws yr ysgol a wna'r canlynol:-

i. hyrwyddo amgylchedd positif, cefnogol a diogel; a

ii. rhoi ymdeimlad i'r disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi

c. nod polisi ymddygiad yr ysgol yw cefnogi disgyblion yn yr ysgol sydd mewn sefyllfa fregus. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ymagweddiad cyson sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y tramgwydd a gyflawnwyd gan y plentyn ond nad yw'n niweidio ymdeimlad y disgybl o'i (g)werth ei hun.

Bydd yr ysgol yn ymgeisio i sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei f/bod ef/hi'n cael ei (g)werthfawrogi ac nid i'w f/beio am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd;

ch. cyswllt ag asiantaethau eraill sy'n cynorthwyo'r myfyriwr megis y Gwasnaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glaslanciau, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad a'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg; a

d. cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bydd pryder yn ailgodi;

dd. Pan fo plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ymadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r ysgol newydd yn syth ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gwneud Atgyfeiriad Amddiffyn Plant at Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol

6.1 Caniatâd

Oherwydd natur yr honiadau, yn enwedig os yn erbyn aelod o'r teulu neu rywun ar aelwyd y plentyn yna, **NID** yw'n briodol trafod materion, na cheisio caniatâd rhieni cyn gwneud atgyfeiriad at Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu.

Bwlio

7.1 Y mae'n polisi ni ar fwlio i'w weld mewn dogfen ar wahân Ffeil Polisiau (Rhif 78)) ac fe'i adolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu.

Ymyriad Corfforol

8.1 Mae'n polisi ni ar 'Drin a Thrafod Diogel' i'w weld yn y Polisi Cadw'n Ddiogel/*Safe Handling Policy* ac fe'i adolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu.

Plant â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig

9.1 Cydnabyddwn mai plant ag anawsterau ymddygiadol ac anableddau sydd fwyaf agored, yn ystadegol, i gamdriniaeth. Mae angen i staff ysgolion sy'n delio â phlant ag anableddau dwys ac amryfal, nam synhwyradd a/neu broblemau emosiynol ac ymddygiadol fod yn arbennig o effro i arwyddion o gamdriniaeth.

Paratowyd gan y Pennaeth mewn cydweithrediad â'r staff _____ * _____ Dyddiad

Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol _____ * _____ Cadeirydd

_____ * _____ Dyddiad

***(Mae'r polisi ffurf papur sydd yn Swyddfa'r Pennaeth wedi'i lofnodi a'i ddyddio. Ceir barn a sylwadau'r Cyngor Ysgol ar rai ohonynt yn ogystal)**